Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

## Gorffennaf 2013

## Cyflwyniad

Mae'r papur briffio hwn yn darparu gwybodaeth am berfformiad Byrddau Iechyd Lleol yn ôl targedau amser Llywodraeth Cymru ynghylch aros am driniaeth yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Caiff y rhan fwyaf o amseroedd aros y GIG yng Nghymru eu mesur yn ôl yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth (RTT), ond mae nifer o eithriadau.[1] **Y cyfnod rhwng atgyfeirio a thriniaeth yw'r amser rhwng yr atgyfeiriad gan Feddyg Teulu neu ymarferydd meddygol arall a phan fydd y claf yn cyrraedd yr ysbyty i gael triniaeth.**[2]

Nod targedau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn y GIG yw sicrhau:

- **bod o leiaf 95 y cant o gleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn aros llai na 26 wythnos rhwng yr atgyfeirio a'r driniaeth.**
- **bod yn rhaid i 100 y cant o'r cleifion nad ydynt wedi cael triniaeth o fewn 26 wythnos gael triniaeth o fewn 36 wythnos.**

Bydd Llywodraeth Cymru yn mesur cynnydd yn ôl y targedau hyn bob mis, a'r ffigurau a ddefnyddir **yw'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd y mis.** Cyhoeddir ffigurau ar wahân ar gyfer cleifion sy'n cael triniaeth yn ystod pob mis,[3] ond gan nad yw'r targedau'n cynnwys y cleifion hyn nid ydynt wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn.

Mae'r ffigurau ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol yn cyfeirio at y cleifion a gafodd eu trin gan y Bwrdd dan sylw, yn hytrach na'r cleifion sy'n byw yn ardal y Bwrdd hwnnw – sy'n cael eu cyhoeddi hefyd ar Ystadegau Cymru.[4]

## Amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y GIG ym mis Mai 2013

Dengys tabl 1 a ffigurau 1 a 2 y perfformiad yn ôl y targedau amser o 26 wythnos a 36 wythnos i aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol, ac ar gyfer Cymru gyfan, gan ddefnyddio'r ffigurau diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013.[5] Mae tabl 1 a ffigur 1 yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- **Ym mis Mai 2013, ni chyrhaeddwyd y targed o 26 wythnos nac o 36 wythnos ar sail Cymru gyfan.**
- Cyrhaeddodd **Bwrdd Iechyd Lleol Powys** y targed amser o 26 wythnos i aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ym mis Mai 2013. Ym Mhowys, roedd un claf yn aros dros 36 wythnos am driniaeth ar ôl atgyfeirio.
- **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro** oedd â'r perfformiad gwaethaf o ran cyrraedd y ddau darged.

[1] Mae'r targedau hyn yn berthnasol i'r mwyafrif o atgyfeiriadau am driniaeth yn ysbytai'r GIG; fodd bynnag, mae nifer o eithriadau. Yn ychwanegol at hyn, mae i gyflyrau fel canser eu targedau penodol eu hunain, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y targedau cyffredinol. Mae rhagor o wybodaeth am dargedau atgyfeirio a thriniaeth ar gael yn nogfen Llywodraeth Cymru, **Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Ebrill 2012**, (Saesneg yn unig) tudalen 1, 14 Mehefin 2012 [fel ar 16 Gorffennaf 2013]

[2] Llywodraeth Cymru, **Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Mai 2013**, 11 Gorffennaf 2013 [fel ar 16 Gorffennaf 2013]

[3] Ibid

[4] Ystadegau Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y mis diwethaf, bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros** (Saesneg yn unig) [fel ar 16 Gorffennaf 2013]

[5] Llywodraeth Cymru, **Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Mai 2013**, 11 Gorffennaf 2013 [fel ar 16 Gorffennaf 2013]

## Tabl 1: Perfformiad yn ôl targedau amser aros ar ddiwedd mis Mai 2013 (a), (c)

| | O dan 26 wythnos | | O dan 36 wythnos (b) | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Lleol | Nifer y cleifion sy'n aros | Canran yr holl gleifion sy'n aros | Nifer y cleifion sy'n aros | Canran yr holl gleifion sy'n aros | Cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth |
| Abertawe Bro Morgannwg | 68,130 | 91.9 | 73,264 | 98.9 | 74,104 |
| Aneurin Bevan | 72,536 | 90.5 | 79,433 | 99.1 | 80,163 |
| Betsi Cadwaladr | 76,660 | 88.9 | 84,445 | 97.9 | 86,245 |
| Caerdydd a'r Fro | 63,343 | 84.9 | 71,180 | 95.4 | 74,584 |
| Cwm Taf | 31,171 | 85.1 | 35,004 | 95.6 | 36,630 |
| Hywel Dda | 45,524 | 92.8 | 48,527 | 98.9 | 49,054 |
| Powys | 5,818 | 98.3 | 5,916 | 100.0 | 5,917 |
| **Cymru** | **363,182** | **89.3** | **397,769** | **97.8** | **406,697** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar Llywodraeth Cymru, ***Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y mis diwethaf, bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros*** (Saesneg yn unig)

Nodiadau:


(a) Mae hyn yn cynnwys cleifion sy'n aros am driniaeth ar gyfer y galon. Caiff yr amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer y galon ei ddiffinio'n wahanol i'r amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler **Adroddiad ansawdd Llywodraeth Cymru** (Saesneg yn unig) i gael rhagor o fanylion.

(b) Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros hyd at 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y cleifion hynny sy'n aros hyd at 26 wythnos a rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.


(c) Cyrhaeddodd y gwerthoedd yn y blychau porffor y targedau amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ym mis Mai 2013.

(d) Ym Mhowys, roedd un claf wedi bod yn aros dros 36 wythnos am driniaeth, o ddechrau mis Mai 2013. Oherwydd talgrynnu, dangosir y ffigur yn nhabl 1 fel 100.0 y cant.

## Ffigur 1: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 26 wythnos am eu triniaeth ar ddiwedd mis Mai 2013




## Ffigur 2: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 36 wythnos am eu triniaeth ar ddiwedd mis Mai 2013



Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Perfformiad yn ôl y targedau amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ers mis Mai 2012

Mae Tabl 2 a ffigur 3 yn canolbwyntio ar y perfformiad, ers mis Mai 2012, yn ôl y targedau amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ar sail Cymru gyfan.[6]

Mae modd gweld yn nhabl 2 a ffigur 3:

- **Nad yw'r naill darged na'r llall wedi'u cyrraedd yn ystod unrhyw** fis ar lefel Cymru gyfan rhwng mis Mai 2012 a mis Mai 2013.
- Ym mis Mai 2013, canran y cleifion a fu'n aros llai na 26 wythnos a llai na 36 wythnos am driniaeth oedd yr isaf ar gyfer unrhyw fis yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Cyfanswm nifer y cleifion a oedd yn aros am driniaeth, oedd y swm uchaf ar gyfer unrhyw fis y flwyddyn ddiwethaf.

[6] Llywodraeth Cymru, ***Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio*** (Saesneg yn unig) [fel ar 16 Gorffennaf 2013]

**Tabl 2: Perfformiad yn ôl y targedau amser aros, ar sail Cymru gyfan, rhwng mis Mai 2012 a mis Mai 2013 (a), (b)**

| | O dan 26 wythnos | | O dan 36 wythnos (b) | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad | Nifer y cleifion sy'n aros | Canran yr holl gleifion sy'n aros | Nifer y cleifion sy'n aros | Canran yr holl gleifion sy'n aros | Cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth |
| Mai 2012 | 371,996 | 93.4 | 396,192 | 99.4 | 398,469 |
| Mehefin 2012 | 375,895 | 93.0 | 401,272 | 99.3 | 404,075 |
| Gorffennaf 2012 | 375,265 | 93.1 | 400,082 | 99.2 | 403,185 |
| Awst 2012 | 373,777 | 91.9 | 403,258 | 99.2 | 406,686 |
| Medi 2012 | 364,953 | 91.1 | 397,421 | 99.2 | 400,622 |
| Hydref 2012 | 366,009 | 91.5 | 396,466 | 99.1 | 400,199 |
| Tachwedd 2012 | 358,643 | 91.1 | 389,049 | 98.9 | 393,474 |
| Rhagfyr 2012 | 352,397 | 90.6 | 383,593 | 98.6 | 389,019 |
| Ionawr 2013 | 347,156 | 90.7 | 375,840 | 98.2 | 382,690 |
| Chwefror 2013 | 352,892 | 91.5 | 379,131 | 98.3 | 385,521 |
| Mawrth 2013 | 356,678 | 91.5 | 384,457 | 98.6 | 389,871 |
| Ebrill 2013 | 357,493 | 90.3 | 388,481 | 98.1 | 396,092 |
| Mai 2013 | 363,182 | 89.3 | 397,769 | 97.8 | 406,697 |


Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar ddogfen Llywodraeth Cymru, ***Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio*** (Saesneg yn unig)

Nodiadau:

(a) Mae hyn yn cynnwys cleifion sy'n aros am driniaeth ar gyfer y galon. Caiff yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer y galon ei ddiffinio'n wahanol i'r amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler **Adroddiad ansawdd Llywodraeth Cymru** (Saesneg yn unig) i gael rhagor o fanylion.

(b) Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros hyd at 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y cleifion sy'n aros hyd at 26 wythnos ac sy'n aros rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.

**Ffigur 3: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 26 wythnos a 36 wythnos ar ddiwedd y mis rhwng mis Mai 2012 a mis Mai 2013**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar ddogfen Llywodraeth Cymru, ***Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio*** (Saesneg yn unig)

Nodiadau – Gweler y nodiadau ar gyfer Tabl 2.

## Arbenigedd trawma ac orthopedeg

Er bod **targedau amseroedd aros yn cael eu defnyddio i fesur perfformiad ar draws pob arbenigedd, mae'n ddefnyddiol gweld cyfraniad arbenigeddau** unigol tuag at y perfformiad.

Mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Mawrth 2011, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd pa mor anodd yr oedd i gyrraedd y targedau amser aros, a hynny yn sgil y pwysau yn y gwasanaethau orthopedeg o ganlyniad i ragor o atgyfeirio gan feddygon teulu.[7]

Yn 2011-12, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £21.5 miliwn mewn gwasanaethau orthopedeg. Yng Nghyllideb Ddrafft 2013-14 dywedir bod y buddsoddiad hwn wedi golygu bod nifer y cleifion a fu'n aros dros 36 wythnos am driniaeth arbenigedd trawma ac orthopedeg wedi gostwng o ryw 6,000 ym mis Mehefin 2011 i 356 ym mis Mawrth 2012.[8]

Dyrannodd Llywodraeth Cymru £15 miliwn yn ychwanegol yn 2012-13 er mwyn ymateb i'r cynnydd yn y galw am driniaeth orthopedeg.[9] Mae'r Llywodraeth hefyd wedi dweud y bydd £16.6 miliwn o gyllid blynyddol rheolaidd yn cael i ddyrannu o 2013-14 er mwyn cynnal gwelliannau yn yr amseroedd amser am driniaeth orthopedeg.[10]

Dengys Tabl 3 y ffigurau diweddaraf ar gyfer yr arbenigedd trawma ac orthopedeg, ar ddiwedd mis Mai 2013.[11]

**Tabl 3: Amseroedd aros ar gyfer yr arbenigedd trawma ac orthopedeg ar ddiwedd mis Mai 2013, (a), (b)**

| | O dan 26 wythnos | | O dan 36 wythnos (a) | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bwrdd Iechyd Lleol** | **Nifer y cleifion sy'n aros** | **Canran y cleifion sy'n aros** | **Nifer y cleifion sy'n aros** | **Canran yr holl gleifion sy'n aros** | **Cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth** |
| Abertawe Bro Morgannwg | 8,491 | 84.5 | 9,812 | 97.6 | 10,053 |
| Aneurin Bevan | 10,445 | 85.4 | 11,995 | 98.1 | 12,233 |
| Betsi Cadwaladr | 7,520 | 83.6 | 8,785 | 97.7 | 8,996 |
| Caerdydd a'r Fro | 7,490 | 86.8 | 8,439 | 97.8 | 8,629 |
| Cwm Taf | 3,273 | 73.6 | 4,040 | 90.8 | 4,450 |
| Hywel Dda | 7,084 | 80.4 | 8,402 | 95.3 | 8,814 |
| Powys | 511 | 96.6 | 528 | 99.8 | 529 |
| **Cymru** | **44,814** | **83.4** | **52,001** | **96.8** | **53,704** |

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar Ystadegau Cymru,** ***Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio*** (Saesneg yn unig)

Nodiadau:

(a) Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros hyd at 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y cleifion sy'n aros hyd at 26 wythnos a rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.

(b) Dengys y gwerthoedd yn y blychau porffor lefel perfformiad sy'n cyfateb i'r lefel angenrheidiol i gyrraedd y targedau amser aros cyffredinol ym mis Mai 2013 neu'n uwch na hynny.

Ym mis Mai 2013:

- Ym **Mwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys** roedd dros 95 y cant o gleifion yn aros llai na 26 wythnos. Ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol arall, roedd llai na 87 y cant o gleifion wedi bod yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth.
- **Ym Mwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys,** mae un claf wedi bod yn aros dros 36 wythnos am driniaeth.
- Y Bwrdd Iechyd Lleol a oedd â'r ganran isaf o gleifion yn aros o dan 26 wythnos a 36 wythnos oedd **Bwrdd Iechyd Cwm Taf.**

[7] Llywodraeth Cymru, Edwina Hart (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), **Y diweddaraf ar Amseroedd Aros a Gwasanaethau Orthopedig,** Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 10 Mawrth 2011 [fel ar 16 Gorffennaf 2013]

[8] Llywodraeth Cymru, **Cyllideb Ddraft 2013-14: Cyllideb Twf a Swyddi**, tudalen 42, Hydref 2012 [fel ar 16 Gorffennaf 2013]


[9] Llywodraeth Cymru, **Cyllideb Ddraft 2012-13: Cyllideb Twf a Swyddi**, tudalen 24, Hydref 2011 [fel ar 16 Gorffennaf 2013]

[10] Llywodraeth Cymru, **Cyllideb Ddraft2013-14: Cyllideb Twf a Swyddi**, tudalen 38, Hydref 2012 [fel ar 16 Gorffennaf 2013][11] Ystadegau Cymru **Cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl y mis diweddaraf, bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros** (Saesneg yn unig) [fel ar 16 Gorffennaf 2013]

[11] Ystadegau Cymru **Cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl y mis diweddaraf, bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros** (Saesneg yn unig) [fel ar 16 Gorffennaf 2013]

Gwelir cymhariaeth yn Ffigur 4 rhwng canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos a 36 wythnos am driniaeth yn yr arbenigedd trawma ac orthopedeg yn ystod y misoedd rhwng mis Mai 2012 a mis Mai 2013.

**Ffigur 4: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 26 wythnos a 36 wythnos am driniaeth yn yr arbenigedd trawma ac orthopedeg, rhwng mis Mai 2012 a mis Mai 2013**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar Ystadegau Cymru, ***Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio*** (Saesneg yn unig)

- Ar gyfer pob mis ers mis Mai 2012, bu canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos am driniaeth yn **llawer is na'r lefel angenrheidiol i gyrraedd y targed ar draws pob arbenigedd.** Ym mis Mai 2013, canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos ar gyfer arbenigedd trawma ac orthopedeg oedd yr isaf o ran unrhyw bwynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd wedi gostwng 1.1 pwynt canran o'i gymharu â mis Ebrill 2013.
- Ar gyfer pob mis ers mis Mai 2012, bu canran y cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos hefyd **yn is na'r lefel sy'n angenrheidiol i gyrraedd y targed amser aros ar draws pob arbenigedd.** Roedd canran y cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos ar gyfer arbenigedd trawma ac orthopedeg ym mis Mai 2013 yn is nag ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac wedi gostwng 0.7 pwynt canran o'i gymharu â mis Ebrill 2013.

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r lincs isod yn darparu rhagor o wybodaeth am y ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y papur hwn, a rhagor o wybodaeth am Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y GIG:

- Llywodraeth Cymru, **Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Mai 2013** (Saesneg yn unig)
- Ystadegau Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio** (Saesneg yn unig)
- Ystadegau Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y mis diwethaf, bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros** (Saesneg yn unig)

Mae ystadegau ar gleifion sydd wedi cael triniaeth yn ystod pob mis ar gael yn:

- Ystadegau Cymru, **Cleifion sydd wedi'u trin yn ôl misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio** (Saesneg yn unig)

I gael rhagor o wybodaeth ac ystadegau am Amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y GIG, cysylltwch â Nigel Barwise (**Nigel.Barwise@cymru.gov.uk**), yn y Gwasanaeth Ymchwil.

Gellir gweld **ein hystod lawn o gyhoeddiadau** ar **wefan y Cynulliad: cynulliadcymru.org/ymchwil**.

Gallwch hefyd ein dilyn ni ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd

**Ymholiad rhif: 13/1899**